# DAVIES, DAVID JOSHUA (1877 - 1945), dramodydd

**Enw:** David Joshua Davies
**Dyddiad geni:** 1877
**Dyddiad marw:** 1945
**Priod:** Annie Davies (née Davies)
**Rhiant:** Mary Davies (née Evans)
**Rhiant:** John Davies
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** dramodydd
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Perfformio
**Awdur:** Gwilym Richard Tilsley

Ganwyd yn Troed-y-rhiw, Llanwenog, 26 Rhagfyr 1877 yn fab i John Davies a Mary (ganwyd Evans) ei wraig. Cafodd ei addysg yn ysgol gynradd Mydroilyn ac ysgol 'tutorial' Ceinewydd. Bu bron â cholli ei olwg yno, ond wedi'i adfer aeth yn brentis i siop 'ironmonger' yn Abertawe. Yn 1910 cymerodd dyddyn, ac yn ddiweddarach y siop a'r swyddfa bost, ym Mhont-rhyd-y-groes, lle treuliodd weddill ei oes. Priododd ag Annie Davies o Geinewydd yng nghapel St. Paul, Aberystwyth, 6 Ebrill 1904 a chodi teulu o bedwar o blant. Daliodd swyddi pwysig yn ei enwad (Y Wesleaid) a'r cyngor sir lle daeth yn gadeirydd y pwyllgor addysg. Ysgrifennodd lawer i'r wasg leol ar bynciau gwleidyddol, ond ei fri mwyaf oedd ennill y wobr yn Eisteddfod Genedlaethol Castell-nedd 1918 am ei ddrama *Maes y Meillion*. Erys ei ddrama *Owen Glynd r* heb ei chyhoeddi. Bu farw 8 Ionawr 1945 a chladdwyd ef yng Ngheinewydd.

## Awdur

**Gwilym Richard Tilsley**, (1911 - 1997)

## Ffynonellau

Gwybodaeth gan ei ferch, Mrs. J. T. Owen

gwybodaeth bersonol

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732851

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu